



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU

LEGISLATION COMMITTEE REPORT

Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2003

Ceir yn y Rheoliadau ddarpariaethau ynghylch y ffordd y bydd y Comisiwn Gwella Iechyd yn gweithredu. Maent yn ail-ddeddfu, gyda rhai newidiadau, y rheoliadau a wnaed yn 2000.

Rheol Sefydlog 11.5

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r mân-wallau drafftio canlynol. Bydd yn briodol eu cywiro drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau ac maent wedi cael eu cydnabod ar ran y Gweinidog.

Rheoliad 1(1) - "adolygiad llywodraethu clinigol"

Nid yw'r cyfeiriad at baragraff (d) yn rheoliad 2 y Rheoliadau Swyddogaethau yn briodol gan fod y ddarpariaeth honno wedi'i diddymu.

Rheoliad 2(4)

Er bod y geiriad "gellir amrywio" yn llinell 1 yn briodol mewn perthynas ag is-baragraff (a), nid yw'n briodol mewn perthynas ag is-baragraff (b). H.y. os bydd y Cynulliad yn penderfynu y dylid amrywio'r rhaglen waith, yr effaith a fwriedir yw mai'r Comisiwn sydd i wneud yr amrywiad hwnnw.

Rheoliad 7(3)(c)

Nid yw'r cyfeiriad yn "paragraff (2)(c)" yn briodol gan nad oes darpariaeth o'r fath.

Rheoliad 8(1)

Gan mai'r bwriad yw rhoi'r grym i'r Comisiwn allu gwneud "adroddiad ar unwaith" lle gwelant mater y maent yn ystyried y dylid tynnu sylw naill ai cyrff paragraff (2) neu'r cyhoedd ato, "neu" yn hytrach na "a" ddylai fod ar ddiwedd is-baragraff (a).

Rheoliad 9(1)

Dylai "Adolygiad cenedlaethol" fod yn "adolygiad gwasanaeth cenedlaethol".

Rheoliad 21(1), (2)

"Rheoliad 2(f)" ddylai fod yn lle "rheoliad 2(1)(f)". .

Sylwadau

Gellid cywiro'r canlynol drwy femorandwm cywiriadau pe dymunir hynny.

Rheoliad 1(3)

Yn unol â'r arfer, dylid rhoi'r term cyfatebol Cymraeg mewn cromfachau ar ôl pob term a ddiffinnir yn y testun Saesneg.

Mae'r diffiniadau o "clinical governance review"/"clinical governance arrangements" a "national service review"/"National Assembly" yn groes i drefn yr wyddor yn y testun Saesneg.

Rheoliad 11(a)

Byddai rhoi "destun yr ymchwiliad" yn lle "destun ymchwilad" yn gwneud y testun yn gliriach.

Rheoliad 16(2),(5)(a)

Ceir cyfeiriadau rhywedd-benodol yn y testun Saesneg.

Rheoliad 22

Byddai'n ddefnyddiol rhoi'r rhif "W" yn y troednodyn.

Mick Bates AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

25 Mawrth 2003